# ATODLEN 4

## Gofynion RhDDC y Deyrnas

## Unedig Rhan 1

Bydd cyflawni'r Dibenion yn gofyn am brosesu Data Personol ar ein rhan. Ni fydd y Rheolwr Data ac mae'r tabl isod yn rhoi manylion y prosesu a ganiateir wrth gyflawni'r Dibenion hyn.

Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig pellach gennym mewn perthynas â phrosesu ar ein rhan. Bydd unrhyw gyfarwyddiadau pellach o'r fath yn cael eu cynnwys yn y tabl:

| **Disgrifiad** | **Manylion** |
|---|---|
| **Y Sail Gyfreithiol ar gyfer Prosesu** | Mae casglu a phrosesu'r data hwn yn angenrheidiol i gyflawni tasg gyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru). Mae hyn yn galluogi gweithredu, a darparu gwybodaeth a fydd yn helpu Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â datblygu'r polisi mewn perthynas â chymorth lles i blant a phobl ifanc, sy'n cael ei ddarparu i wella lles economaidd a chymdeithasol yng Nghymru, yn unol ag adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. |
| **Pwnc y Prosesu** | Byddwch yn prosesu'r data ar gyfer y cyfranogwyr rydych chi'n darparu darpariaeth Gaeaf Llawn Lles ar eu cyfer. |
| **Hyd Cyfnod y Prosesu** | Byddwch yn prosesu data ymgeiswyr o 1 Hydref 2021 hyd at ddiwedd 30 Ebrill 2022.<br><br>Dylid trosglwyddo'r data personol (a ragnodir isod) i Lywodraeth Cymru (neu benodi gwerthuswyr annibynnol sydd wedi'u contractio i gynnal y gwerthusiad ar ran Gweinidogion Cymru) cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na 30 Ebrill 2022. |
| **Lleoliad Prosesu** | Rhaid prosesu'r data yn y Deyrnas Unedig ac ni ddylid ei drosglwyddo y tu allan i'r DU oni bai ei fod yn unol ag amod 2.6.6. |
| **Natur y Prosesu** | Fel y proseswyr data, rhaid i chi neu'ch darparwyr gasglu, gwirio, cofnodi a storio'r data a amlinellir yn y ddogfen hon. (Atodlen 4). Rhaid i chi hefyd ddatgelu y |

| | |
|---|---|
| | data hyn i Lywodraeth Cymru (neu Lywodraeth Cymru a benodir gwerthuswyr annibynnol) drwy ddulliau diogel ac o dan reolaethau llym.<br><br>Mae hyn at ddibenion gwerthusiad annibynnol o effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac effaith Gaeaf Llawn Lles. Pan fydd y lledaeniad hwn yn cynnwys data y gellid ei ddefnyddio i adnabod unigolion, bydd hyn yn cael ei gymeradwyo a'i reoli gan gytundeb mynediad data priodol gan Lywodraeth Cymru a fydd:<br><br>• Yn sicrhau trosglwyddo diogel, storio a dinistrio'r data yn y pen draw;<br>• Yn cyfyngu ar y defnydd o'r gofyniad penodol a nodwyd a dim ond caniatáu i'r data gael ei storio drwy gydol y prosiect ymchwil;<br>• Dienwi unrhyw ddata a gesglir trwy offer ymchwil cyn gynted â phosibl |
| **Dibenion Prosesu** | • Diben y gweithgareddau hyn fel prosesydd data yw mesur pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn darparu eu gwasanaethau i blant a phobl ifanc;<br>• cefnogi gwelliannau i'r gwasanaethau hyn;<br>• cefnogi ymchwil ehangach i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc (0 i 25 oed);<br>• cysylltu data o'r ffurflen hon i ffynonellau data eraill, er mwyn gwerthuso'r effaith y prosiect ar yr unigolion sy'n cymryd rhan;<br>• Gwerthuso effaith y prosiect ar ddarparwyr. |
| **Y Math o Ddata Personol i'w Brosesu** | Byddwch yn prosesu data sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol.<br><br>Byddwch chi neu'ch darparwyr yn trosglwyddo'r data i Lywodraeth Cymru (neu werthuswyr annibynnol a benodir), fel y nodwyd, DIM OND o blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y Gaeaf Llawn Lles.<br><br>Y data personol a rennir â Llywodraeth Cymru (neu werthuswyr annibynnol |

| | |
|---|---|
| | penodedig) fydd y wybodaeth adnabyddadwy a ganlyn:<br><br>• Enw<br>• Cyfeiriad<br>• Dyddiad Geni<br>• Cyfeiriad e-bost<br>• Rhif ffôn.<br><br>Cyfeiriad e-bost y darparwr |
| **Categorïau'r Gwrthrychau Data** | • Plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y Gaeaf Llawn Lles.<br>• Darparwyr sy'n cyflawni'r cynllun. |
| **Cynllunio ar gyfer dychwelyd a / neu ddinistrio'r data unwaith y bydd y prosesu wedi'i gwblhau ONI BAI bod gofyniad o dan y gyfraith i gadw'r math hwnnw o ddata** | Bydd data adnabyddadwy yn cael ei ddinistrio'n barhaol erbyn mis Tachwedd 2022 (3 blynedd ar ôl y dyddiad y cafodd ei dderbyn). |

**Rhan 2**

1. Bydd y diffiniadau a nodir isod ar gyfer y termau canlynol yn cael eu defnyddio yn yr Atodlen RhDDC hon:

| | |
|---|---|
| Digwyddiad Diogelwch Data | Ystyr hyn yw unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain, neu a allai arwain, at fynediad heb awdurdod at Ddata Personol a gedwir gennych o dan Ddyfarniad Cyllid, a/neu golli a/neu ddinistrio Data Personol gwirioneddol neu bosibl yn groes i'r Dyfarniad Cyllid hwn, gan gynnwys unrhyw doriad data personol (fel y'i diffinnir yn RhDDC y DU); |
| Asesiad Effaith Diogelu Data | Ystyr hyn yw asesiad gan y Rheolwr o effaith y Prosesu a ragwelir ar ddiogelu Data Personol; |
| Deddfwriaeth Diogelu Data | Ystyr hyn yw'r holl ddeddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd berthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU, gan gynnwys, heb gyfyngiad; RhDDC, DDD 2018 (a'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf); Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y'u diwygiwyd; a'r canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd ac sy'n gymwys i barti; |
| Cais Mynediad Gwrthrych Data | Ystyr hyn yw cais a wneir gan neu ar ran Gwrthrych Data yn unol â'r hawliau a roddir yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data i gael mynediad at eu Data Personol; |
| DDD 2018 | Ystyr hyn yw'r Ddeddf Diogelu Data 2018; |
| RhDDC y DU | Ystyr hyn yw'r Rheoliad (UE) 2016/679 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 27 Ebrill 2016 ar ddiogelu personau naturiol o ran prosesu data personol, ac ar symudiad rhydd data o'r fath fel y mae'n rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhinwedd adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018; |
| Y Gyfraith | Ystyr hyn yw<br><br>(a) unrhyw statud neu gyhoeddiad perthnasol neu unrhyw ddeddfwriaeth ddirprwyedig neu is-ddeddfwriaeth;<br><br>(b) unrhyw ganllawiau, cod ymarfer, cyfarwyddyd neu benderfyniad cymwys yr ydym ni a/neu chi yn rhwym i gydymffurfio ag ef, i'r graddau y maent wedi'u cyhoeddi ac ar gael i'r cyhoedd neu y mae eu bodolaeth neu eu cynnwys wedi cael eu hysbysu i chi gennym ni; ac<br><br>(c) unrhyw ddyfarniad cymwys neu orchymyn llys y gyfraith perthnasol sy'n gynsail rhwymol yng Nghymru a Lloegr, |

| | |
|---|---|
| | sydd ym mhob achos mewn grym neu'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, neu yng Nghymru yn unig; |
| Parti | Ystyr hyn yw: ni neu chi, a gyda'n gilydd **"Y Partïon"**; |
| Mesurau Amddiffyn | Ystyr hyn yw mesurau technegol a sefydliadol priodol a all gynnwys ffugenwi ac amgryptio Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwytnwch systemau a gwasanaethau, sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad at Ddata Personol mewn modd amserol ar ôl digwyddiad ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau a fabwysiadwyd ganddo'n rheolaidd; |
| Is-brosesydd | Ystyr hyn yw unrhyw drydydd parti a benodir i Brosesu Data Personol ar eich rhan mewn perthynas â Dyfarnu Cyllid; |
| Dyddiau Busnes | Ystyr hyn yw diwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, diwrnod Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971. |

## 2. DIOGELU DATA PERSONOL

2.1 Yn yr Atodlen RhDDC Deyrnas Unedig hon, bydd gan y telerau canlynol yr ystyr a roddir iddynt o fewn RhDDC y Deyrnas Unedig: **Rheolwr, Prosesydd, Gwrthrych Data, Data Personol, Proses, Toriad Data Personol, Swyddog Diogelu Data**.

2.2 Mae'r Partïon yn cydnabod, at ddibenion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, mai ni yw'r Rheolwr a chi yw'r Prosesydd.

2.3 Oni bai bod gofyn fel arall i chi wneud hynny yn ôl y gyfraith (ac os felly byddwch yn ein hysbysu o'r gofyniad cyfreithiol hwnnw cyn Prosesu, oni bai bod y gyfraith yn gwahardd gwybodaeth o'r fath am resymau pwysig er budd y cyhoedd), disgrifir yr unig Brosesu Data Personol yr ydych wedi'i awdurdodi i'w wneud yn yr Atodlen RhDDC Deyrnas Unedig hon, neu mae'n destun cymeradwyaeth ysgrifenedig o flaen llaw gennym ac efallai na fydd yn cael ei benderfynu gennych chi. Ni fyddwch yn prosesu'r Data Personol at unrhyw ddiben arall nac mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r Dyfarniad Cyllid hwn na'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rhaid i chi gydymffurfio'n brydlon â'n cyfarwyddiadau ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi addasu, trosglwyddo, dileu neu brosesu'r Data Personol fel arall, neu i atal, lliniaru neu gywiro unrhyw brosesu anawdurdodedig.

2.4 Mae'n rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith os ydych yn ystyried bod unrhyw un o'n cyfarwyddiadau yn torri deddfwriaeth diogelu data.

2.5 Mae'n rhaid i chi ddarparu'r holl gymorth rhesymol i ni mewn unrhyw Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data parhaus cyn ac ar ôl dechrau unrhyw Brosesu. Gall y cymorth hwn, yn ôl ein disgresiwn, gynnwys:

2.5.1 disgrifiad systematig o'r gweithrediadau prosesu a ragwelir a phwrpas y Prosesu;

2.5.2 asesiad o angen a chymesuredd y gweithrediadau prosesu mewn perthynas â'r Dibenion hyn;

2.5.3 asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid Gwrthrychau Data; a

2.5.4 disgrifiad systematig o'r mesurau a ragwelir i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys mesurau diogelu, mesurau diogelwch a mecanweithiau i sicrhau bod Data Personol yn cael ei amddiffyn.

2.6 Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a Brosesir mewn cysylltiad â'ch rhwymedigaethau o dan Ddyfarniad Cyllid:

2.6.1 Prosesu dim ond y Data Personol hwnnw, yn unol ag Amod 2.3 o'r Atodlen RhDDC hon, oni bai ei bod yn ofynnol i chi wneud fel arall yn ôl y gyfraith. Os oes rhaid i chi wneud hynny, rhaid i chi roi gwybod i ni'n brydlon cyn prosesu'r data personol oni bai ei fod wedi'i wahardd gan y gyfraith;

2.6.2 sicrhau bod gennych Fesurau Diogelu ar waith, sydd wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gennym ni fel y bo'n briodol, i'w diogelu rhag Digwyddiad Diogelwch Data ar ôl ystyried y canlynol:

(i) natur y data sydd i'w diogelu;
(ii) niwed a allai ddeillio o Ddigwyddiad Diogelwch Data;
(iii) cyflwr datblygiad technolegol; a
(iv) costau gweithredu unrhyw fesurau;

2.6.3 mae'n rhaid i chi, lle mae'n ofynnol i chi dan y Dyfarniad Cyllid hysbysu Gwrthrychau Data am bwrpas a manylion y Prosesu sydd i'w wneud, gydweithredu â ni i gytuno ar hysbysiad priodol sy'n cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Mae'n rhaid i'r hysbysiad gael ein cymeradwyaeth ysgrifenedig o flaen llaw. Rhaid i chi beidio ag addasu neu newid yr hysbysiad mewn unrhyw ffordd heb ein caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw;

2.6.4 sicrhau nad yw eich staff yn prosesu data personol ac eithrio yn unol â'r Dyfarniad Cyllid;

2.6.5 sicrhau eich bod yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau dibynadwyedd a gonestrwydd unrhyw un o'ch Staff sydd â mynediad at y Data Personol a sicrhau eu bod:

(i) yn ymwybodol o'ch rhwymedigaethau ac yn cydymffurfio â nhw o dan yr amodau;
(ii) yn ddarostyngedig i ymgymeriadau cyfrinachedd priodol gyda chi neu unrhyw Is-brosesydd;

(iii) yn cael gwybod am natur gyfrinachol y Data Personol ac nid ydynt yn cyhoeddi, datgelu na rhannu unrhyw ran o'r Data Personol i unrhyw drydydd parti oni bai ein bod wedi cael cyfarwyddyd ysgrifenedig i wneud hynny gennym ni, neu fel y caniateir fel arall gan y Dyfarniad Cyllid; a

(iv) wedi cael hyfforddiant digonol o ran defnyddio, gofalu, diogelu a thrin Data Personol;

2.6.6 peidio â throsglwyddo Data Personol y tu allan i'r Deyrnas Unedig oni bai ein bod wedi cael caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw neu fod Erthygl 28(3)(a) o RhDDC y DU yn berthnasol.

2.6.7 Yn unol â'n cyfeiriad ysgrifenedig, dileu neu ddychwelyd Data Personol (ac unrhyw gopïau ohono) i ni pan ddaw'r Dyfarniad Cyllid i ben, oni bai ei bod yn ofynnol i chi yn ôl y gyfraith gadw'r Data Personol hynny.

2.7 Yn amodol ar Amod 2.8, rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith os, mewn cysylltiad â'r Dyfarniad Cyllid:

2.7.1 rydych yn derbyn Cais Mynediad Gwrthrych Data (neu Gais Mynediad Gwrthrych Data honedig);;

2.7.2 rydych yn derbyn cais i gywiro, blocio prosesu neu ddileu unrhyw Ddata Personol;

2.7.3 rydych yn derbyn unrhyw gais, cwyn neu gyfathrebiad arall sy'n ymwneud â rhwymedigaethau'r naill barti neu'r llall o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

2.7.4 rydych yn derbyn unrhyw ohebiaeth gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddio arall mewn cysylltiad â Data Personol a Brosesir o dan Ddyfarniad Cyllid;

2.7.5 rydych yn derbyn cais gan unrhyw drydydd parti am ddatgelu Data Personol pan fo cydymffurfio â chais o'r fath yn ofynnol neu'n honni ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith; neu

2.7.6 rydych yn dod yn ymwybodol o Ddigwyddiad Diogelwch Data.

2.8 Mae eich rhwymedigaeth i hysbysu o dan Amod 2.7 o'r Atodlen RhDDC hon yn cynnwys darparu gwybodaeth bellach i ni fesul cam heb oedi gormodol wrth i fanylion ddod ar gael.

2.9 Gan ystyried natur y Prosesu, rhaid i chi roi cymorth llawn i ni mewn perthynas â rhwymedigaethau'r naill barti neu'r llall o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac unrhyw gŵyn, cyfathrebu neu gais a wneir o dan Amod 2.7 o Atodlen RhDDC y Deyrnas Unedig hon (ac i'r graddau y bo modd o fewn yr amserlenni sy'n rhesymol ofynnol gennym ni) gan gynnwys drwy roi i ni'n brydlon y canlynol:

2.9.1 manylion llawn a chopïau o'r gŵyn, y cyfathrebu neu'r cais;

2.9.2 unrhyw gymorth y gallwn ofyn amdano yn rhesymol i'n galluogi i gydymffurfio â Cheisiadau Mynediad Gwrthrychau Data o fewn yr amserlenni perthnasol a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

2.9.3 ar ein cais ni, unrhyw Ddata Personol sydd gennych mewn perthynas â Gwrthrych Data;

2.9.4 cymorth, fel y gallwn ofyn yn rhesymol yn dilyn unrhyw ddigwyddiad diogelwch data;

2.9.5 cymorth, fel y gallwn ofyn yn rhesymol mewn perthynas ag unrhyw gais gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw ymgynghoriad gennym ni gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2.10 Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion a gwybodaeth gyflawn a chywir i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Amod 2 hwn o'r Atodlen RhDDC hon. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol os ydych yn cyflogi llai na 250 o staff oni bai:

2.10.1 rydym yn penderfynu nad yw'r prosesu yn achlysurol; neu

2.10.2 rydym yn penderfynu bod y Prosesu yn cynnwys categorïau arbennig o ddata fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 9(1) o RhDDC y DU neu Ddata Personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau y cyfeirir atynt yn Erthyglau 10 RhDDC; neu

2.10.3 rydym yn penderfynu bod y Prosesu yn debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddid Gwrthrychau Data.

2.11 Mae'n rhaid i chi ganiatáu ar gyfer archwiliadau o'ch gweithgaredd prosesu data gennym ni neu ein harchwilydd dynodedig.

2.12 Mae'n rhaid i chi ddynodi swyddog diogelu data os yw'n ofynnol gan y Ddeddf Diogelu Data.

2.13 Cyn caniatáu i unrhyw is-brosesydd brosesu unrhyw ddata personol sy'n gysylltiedig â dyfarnu cyllid mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

2.13.1 rhoi gwybod i ni yn ysgrifenedig am yr Is-brosesydd a'r Prosesu arfaethedig;

2.13.2 cael ein caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw;

2.13.2 ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig gyda'r Is-brosesydd sy'n rhoi ar waith y telerau a nodir yn yr Atodlen RhDDC hon yn y DU fel eu bod yn gymwys i'r Is-brosesydd; a

2.13.3 rhoi gwybodaeth o'r fath i ni ynghylch yr Is-brosesydd ag y mae o bosib yn rhesymol ei hangen arnom.

2.14 Byddwch yn parhau i fod yn gwbl atebol am holl weithredoedd neu hepgoriadau unrhyw Is-brosesydd.

2.15 Gallwn ar unrhyw adeg, ar rybudd o ddim llai na 30 Diwrnod Busnes, ddiwygio'r Amod 2
hwn o Atodlen 6 RhDDC y DU drwy ei ddisodli ag unrhyw gymalau safonol rheolydd i brosesydd cymwys neu delerau tebyg sy'n ffurfio rhan o gynllun ardystio cymwys (a fydd yn gymwys pan gaiff ei ymgorffori drwy atodiad i'r Dyfarniad Cyllid).

2.16 Mae'r Partïon yn cytuno i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chanllawiau eraill lle bo hynny'n berthnasol. Efallai y byddwn, ar ddim llai na 30 Diwrnod Busnes o rybudd i chi, yn diwygio'r Dyfarniad Cyllid i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2.17 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw beth yn y Dyfarniad Cyllid yn eich rhyddhau o'ch cyfrifoldebau a'ch rhwymedigaethau uniongyrchol eich hun o dan y Ddeddf Diogelu Data.

2.18 Rydych yn cytuno i'n hindemnio a'n cadw wedi ein hindemnio yn erbyn pob hawliad ac achos a'r holl atebolrwydd, colled, costau a threuliau a dynnir mewn cysylltiad â hwy, o ganlyniad i unrhyw hawliad a wneir neu a ddygwyd gan unrhyw unigolyn neu berson cyfreithiol arall mewn perthynas ag unrhyw golled, difrod neu ofid a achoswyd i'r unigolyn hwnnw, neu berson cyfreithiol arall, o ganlyniad i'ch prosesu heb awdurdod, prosesu anghyfreithlon, dinistrio a/neu ddifrodi unrhyw broses Data Personol gennych chi, eich cyflogeion neu asiantau wrth i chi weithredu'r Dyfarniad Cyllid neu fel y cytunwyd fel arall rhwng y Partïon.

2.19 Bydd darpariaethau'r Atodlen RhDDC hon yn berthnasol yn ystod parhad y Dyfarniad Cyllid ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddo ddod i ben.